

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
1 Gorffennaf 2019 yn Festri Capel Penuwch am 8 o'r gloch.
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
1 July 2019, in Penuwch Chapel Vestry, at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

Presennol/Present

Cyng Gwennifer Owen (Gadair/*Chair*), Gwilym Evans, Emyr Jones, Myrddin James, Eirian Jones, Rhian Turner a Cyng Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng Beryl Evans a Cyng John Evans.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / *No one*

Adroddiad yr Heddlu/Police Report - Yn absenoldeb yr heddlu ni dderbyniwyd adroddiad / *In the absence of a police officer, no report was received.*

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cynnig / *Proposed*: Cyng Myrddin James

Eiliwyd / *Seconded*: Cyng Emyr Jones

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Mr Cliff Bates o'r Cyngor Sir ar wyliau ar hyn o bryd a methu dod a gwybodaeth nol i ni am y fflag a'r polyn mae'r Cyngor Cymuned yn meddwl lleoli yng nghanol y pentref.
- Clerc i gysylltu efo Julie Osmond, CADW i weld a oes yna benderfyniad wedi'u wneud ar ein cais am grant ar gyfer gwaith i'w wneud ar filwr sydd wedi'u leoli ar gylchfan Llangeitho.
- Gan na dderbynnir ymateb dderbyniol i gostau'r etholiadau, gofynnir i Cyng Rhodri Evans gysylltu â Ms Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd i drafod ymhellach.
- Cyng Dafydd Morse wedi cynrychioli Cyngor Cymuned Llangeitho yn Orymdaith yr Eisteddfod yn Aberteifi ar ddydd Sadwrn 29 Mehefin 2019.
- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Jon Halle, Shareenergy, Small Wind Co-op, yn esbonio bod y fenter o twrbein gwynt yn Troed y Bryn a'r Alban wedi bod yn rhedeg ar golled hyd yma ond fod y cwmni wedi dod o hyd i ddau twrbein gwynt newydd yn County Durham a gobeithir gallu gwneud ychydig elw yn 2020. Gofynnir i Cyng Rhodri Evans i ymchwilio mewn i'r contract gwreiddiol a beth ddywedir yna am y drefn.
- Ddim wedi'u wneud am y twll yn y ffordd ar y gornel sy'n troi lan am Bronaeron o Parchrhydderch eto.
- Golau lamp stryd gyferbyn a Glynderwen ddim wedi'u hadnewyddu hyd yma.
- Twll wrth ymyl y ffordd rhwng Cnwc y Barcud a Cae Melyn ddim wedi derbyn sylw hyd yma.

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

Cyfrifon/Accounts

- Balans y banc ar 31.05.2019 £8,568.17 *Bank balance as of 31.05.2019*
- ROSPA – Play Safety £90.60 (*Archwiliad y Parc / Park Inspection*)

Cynnig/*Proposed*: Cyng/Cllr Emyr Jones

Eiliwyd/*Seconded*: Cyng/Cllr Gwilym Evans.

Cymorth Ariannol/Financial Support

Trafodwyd a chytunwyd i'r ceisiadau am gymorth ariannol isod:

- Capel Gwynfil, Eglwys Llangeitho, Eglwys Llanbdarn Odwyn, Capel Penuch, Capel Llwynpiod a Neuadd Llangeitho £200 yr un.
- Ti & Fi Llangeitho, Cylch Meithrin Llangeitho, Ysgol Sul, Y Barcud, CFFI Llangeitho, Llangeitho Brownies, Cyfeillion Ysgol Rhos Helyg, Carnifal Llangeitho Elusen Ambiwylans Awyr Cymru, Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd & Treialon Cwn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020 £100 yr un.
Clerc i anfon nodyn efo sic Treialon Cwn Defaid Rhyngwladol i ofyn faint o gynulleidfa maent yn gobeitho tynnu, pa gydnabyddiaeth mae'r Cyngor Cymuned yn mynd i dderbyn a hefyd gall enw'r Cyngor Cymuned Llangeitho gael ei ddodi yn rhaglen yr Wyl.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Dim i'w gofnodi

Un Llais Cymru/One Voice Wales

- Cadeirydd yn methu mynychu 'Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru' ar 10fed o Orffennaf 2019 yn Hafod a Hendre, maes y Sioe Amaethyddol.
- Ni fydd neb yn cynrychioli Cyngor Cymuned Llangeitho yn bwyllgor Ardal Un Llais Cymru nesaf.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Soniwyd bod y cais cynllunio Cateri yn Talwrn, Llwynygroes wedi cael ei gymeradwyo efo newidiadau i leihau'r prosiect a bod y gwaith i'w wneud cyn dechrau ar y prosiect.
- Dyddiad yr 'ymgyngoriad ynghylch safleoedd posib ychwanegol – Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion newydd (CDL12) 2018-2033 yn dod i ben ar 12 Medi 2019, angen ei drafod yn y cyfarfod nesaf.
- Cwyn wedi'u dderbyn bod angen torri'r coed/clawdd tu allan i eiddo Eidelweise, Penuwch.
- Strategaeth toiledau cyhoeddus yn cael ei edrych arno ar hyn o bryd gan edrych i gadw'r toiledau cefn gwlad fel ag y maent.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 2 Medi 2019 – Neuadd Jiwibili, Llangeitho.